

Model o ddiwygiad

“...ac yn sydyn fe ddaeth swm o'r nef fel gwynt grymus yn rhuthro...” (adn. 2)

Beth am ddarllen Actau 2:1–21 ac yna myfyrio

Yn ystod y diwrnodau diwethaf, yr ydym wedi bod yn pwysleisio'r ffaith fod esgeuluso'r gwirioneddau sylfaenol yn waith pobl sydd â meddylfryd Philistaidd. Mae'r tuedd yma yn glir hefyd gyda'r hyn yr wyf am siarad amdano dros y diwrnodau nesaf – y gwirionedd am ddiwygiad o'r nefoedd. Mae cuddio'r gwirionedd yma yn effeithio ar fywyd a brwdfrydedd yr eglwys i'r fath raddau fel bod angen inni roi sylw difrifol iddo. Cyn mynd ymhellach, y mae angen i mi ddweud fy mod yn deall diwygiad fel y gair hwnnw sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio unrhyw beth o benwythnos lle profwyd bendith arbennig mewn eglwys i ymgyrch efengylaidd gyda miloedd o bobl yn ymgynnull. Yn wir, pan ddaeth Billy Graham i ardal Harringay yn Llundain yn 1954, bu i'r wasg Gristnogol gyhoeddi 'Diwygiad yn dod i Lundain'. Roedd ymgyrch yn amser o fendith arbennig a bu i filoedd o bobl ddarganfod perthynas newydd hefo Iesu Grist, ond nid diwygiad oedd e mewn gwirionedd. Y diffiniad gorau o ddiwygiad a glywais erioed yw diffiniad y Dr Martyn Lloyd Jones. Mae'n sôn am ddiwygiad fel 'dychwelyd at y Pentecost'.

Ar ddydd y Pentecost bu i ynni ysbrydol goruwchnaturiol lifo i mewn i fywydau'r disgyblion cynnar i'r fath raddau fel yr oedd yn beth cwbl newydd yn hanes eglwys Dduw. Nid rhai defnyddiau yn dod i lawr oedd hyn. Roedd hwn yn fwy nag afon. Dyma oedd grym Duw yn gorlifo i mewn i fywydau'r rhai oedd yn dilyn Iesu Grist. Mae digwyddiadau'r Pentecost a chael dychwelyd i'r dyddiau hynny o rym ac o ogoniant yn un o'r pethau ddylai fod yn ddyhead pennaf y saint.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

2 Cron. 5:12–14; 7:1–4

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd yr hyn a ragflaenodd ogoniant Duw yn llanw'r deml?
2. Sut fu i'r Israeliaid ymateb i dân o'r nefoedd?

Gweddi

O Dduw, tyrd ac ymwêl â ni eto fel y gwnaethost ar ddydd y Pentecost. Caniatâ i'r addewid o lifogydd ar dir sych gael eu cyflawni yn ein dydd yn yr un modd ag y cyflawnwyd efar y dydd cyntaf hwnnw yn hanes y disgyblion. Yn enw Iesu. Amen.